PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 427 | Mawrth 2020



Gŵyl Offerynnol Rhanbarth Ceredigion yr Urdd







# Diwrnod y Llyfr



Brownies Penrhyn-coch yn cyflwyno eu llyfrau i Oxfam fel rhan o fathodyn "Cefnogi Elusennau".



Cylch Meithrin Pen-llwyn ar Ddiwrnod y Llyfr




Plant Cylch Meithrin Rhydypennau ar Ddiwrnod y Llyfr. Gwelir eu hanes ar t.10

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ebrill**
Deunydd i law: Mawrth 27
SYLWER AR Y DYDDIAD CYNT HERWYDD Y PASG
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 8

**MAWRTH 20** Nos Wener Twmpath dawns a chawl yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor – trefnir gan Ysgol Pen-llwyn
GOHIRIWYD

**MAWRTH 21** Nos Sadwrn Cinio Gwyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Marine Gwraig wadd: Catrin M S Davies
GOHIRIWYD

**MAWRTH 28** Dydd Sadwrn Hanner Marathon Llwybr Arian Nant yr Arian o 10.30 i 16.00
GOHIRIWYD

**MAWRTH 28** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau awr ymlaen

**EBRILL 17** Nos Sadwrn Noson cawl a cherddoriaeth fyw yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las Pwyllgor apêl y Borth 2020. Am fanylion pellach a thocynnau, cysyllter â Catrin Pugh Jones catpj25@gmail.com
GOHIRIWYD

**EBRILL 24-25** Nos Wener a dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch
GOHIRIWYD

**MAI 3** Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion Capel y Garn
GOHIRIWYD

**GORFFENNAF 4-5** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament Pêl-droed Eric & Arthur Thomas, Penrhyn-coch. WEDI EI SYMUD O FIS MAI

# CFfI Tal-y-bont

Llongyfarchiadau i dimau A a B siarad cyhoeddus dan 14eg o CFfI Tal-y-bont. Enillodd Lois Medi darian am y cadeirydd gorau a chwpan y darllenydd gorau dan 14eg yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus CFfI Sir Ceredigion. Bydd Lois yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru ar Fawrth yr 22ain. Bydd Oisin Pennant yn ogystal yn darllen yn y tîm dan 14eg. Pob lwc i'r ddau ar lefel Cymru. O'r chwith: rhes gefn Tîm A Oisin Pennant, Elain Tanat, Elen Llywelyn; rhes flaen: Tîm B Llio Tanat. Lois Medi, Caoimhe.






Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Chwefror 2020:

**£25** (Rhif 146) Ann Jones, Trem y Ddôl
**£15** (Rhif 87) Bryn Roberts, Cilgwyn, Bow Street
**£10** (Rhif 74) Iori/Ceris Jones, Llwyn Awel

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher, Chwefror 19

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar e-bost **m.e.bebb@talk21.com**

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Trefeurig £250
Cyngor Cymuned y Borth £25

**CARTREF TREGERDDAN**
**Yn eisiau - Planhigion**
Mae ffrindiau Cartref Tregerddan yn awyddus i greu gardd flodau a phlanhigion a fyddai'n denu adar i ardal y byrddau adar sydd ger yr ystafell fwyta.

Os oes gan unrhyw un flodau sbâr neu blanhigion dros ben yn yr ardd byddent yn falch iawn ohonynt neu unrhyw gyfraniadau eraill.

Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor neu'r Cartref.

## DÔL-Y-BONT

**Pen blwydd priodas**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mair a Gerallt Evans, Pantydwn, ar achlysur dathlu eu bod wedi bod yn briod am 60 mlynedd. Pob hwyl i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**
Estynwn ein cydymdeimlad â Sarah Standing a'r teulu, Glan Gro, ar farwolaeth tad Sarah ddiwedd Chwefror, sef Mr. Mike Swift, Penrhyn-coch.

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Plant yr ardal yn eu gwisg ffansi yn Neuadd Eglwys Sant Ioan. Gwelir hefyd y ddau feirniad – (Mr a Mrs Brown, Banc y pennau, Rhydypennau)
Llun: Hugh Jones (O Dincer Mawrth, 1990)

# Gorsaf Bow Street – Cam Nesaf y Gwaith

Mae gwaith mawr erbyn hyn yn digwydd ar safle gorsaf newydd Bow Street. Bydd yn cynnwys maes parcio, cyfnewidfa bysiau a lle storio beics, ac mae disgwyl iddi agor i deithwyr tua diwedd gaeaf 2020.

Bydd yr orsaf newydd, a gaiff ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth, yn cael ei darparu gan Trafnidiaeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion a Network Rail.

**Beth sydd wedi digwydd hyd yma?**
Rydym wedi bod ar y safle ers mis Hydref 2019 a dechreuodd y gwaith o adeiladu Gorsaf newydd Bow Street ym mis Tachwedd 2019. Yn ddiweddar, fe wnaethom gwblhau rhan fawr o'r gwaith – gosod y platfform – a byddwn yn symud ymlaen at gamau nesaf y gwaith adeiladu dros yr wythnosau nesaf.

**Beth yw cam nesaf y gwaith?**
Dwy agwedd allweddol ar y prosiect fydd datblygu'r maes parcio, fydd yn cynnwys symud y tir yn y cae wrth ymyl safle'r orsaf newydd, wedyn creu'r ffordd fynediad newydd i'r orsaf a fydd yn cael ei hadeiladu oddi ar yr A487.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn addasu'r gyffordd bresennol rhwng yr A487 a'r A4159, er mwyn cyd-fynd yn well â'r orsaf newydd. O ganlyniad, bydd mesurau rheoli traffig ar waith o ddiwedd mis Mawrth tan ddiwedd yr haf, yn ystod oriau dydd.

Alun Griffiths Contractors Ltd yw ein prif gontractwyr ar y safle.

**Sut bydd hyn yn effeithio arnom ni?**
Byddwn yn ceisio sicrhau bod y gwaith ffordd hanfodol yn cael cyn lleied o effaith â phosib ar bobl yn ystod y cyfnod hwn, ond dylech ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer teithio yn y car ar hyd y briffordd. Dechreuodd y gwaith fis Mawrth a bydd yn parhau yn ystod misoedd yr haf. Hoffem ymddiheuro ymlaen llaw am unrhyw anghyfleustra a achosir gan y gwaith, a diolch i chi am eich amynedd yn ystod y cyfnod hwn.

# Y BORTH

**Actorion lleol yn creu BANG ar S4C**

Mae dau actor â chysylltiadau agos â'r Borth i'w gweld ar S4C ar hyn o bryd wrth i'r ail gyfres o Bang ddychwelyd i'r sgrin fach.

Yn y ddrama drosedd sydd wedi'i ffilmio ym Mhort Talbot, mae Jacob Ifan yn chwarae rhan Sam a Hedydd Dylan yw ei swyddog prawf.

Mae'r gyfres newydd o **Bang** yn ein taflu ni nôl i'r dref ddiwydiannol union ddwy flynedd wedi digwyddiadau'r gyfres gyntaf.

Mae'r gyfres hir ddisgwyliedig yn dilyn chwaer Sam sef DS Gina Jenkins (Catrin Stewart) a Luke Lloyd (Jack Parry-Jones) wrth iddynt geisio canfod dirgelwch cyfres o lofruddiaethau ym Mhort Talbot sy'n gysylltiedig ag achos hynafol o drais.

Taniai'r stori gyda llofruddiaeth dyn 30 oed ar lan y môr y dref. Ond yn fuan iawn, mae'r ditectifs Gina a Luke yn dysgu mai dyma'r llofruddiaeth gyntaf mewn cyfres o lofruddiaethau sy'n gysylltiedig â chyhuddiad hanesyddol.

Ymddengys bod y llofrudd yn targedu'r dynion a gafodd eu henwi gan y fenyw leol Marissa Clarke mewn achos treisio 10 mlynedd ynghynt. Syrthiodd yr achos yn erbyn y dynion, ac ni chawsant eu dwyn o flaen eu gwell.

Mae'r gyfres newydd wedi ei hysgrifennu gan yr enillydd BAFTA, Roger Williams, ac mi gafodd y gyfres gyntaf, sy'n adnabyddus am ei natur ddwyieithog, ei henwi ar restr fer Gwobr Writers' Guild.

Dywedodd Roger Williams: "Wrth wraidd yr ail gyfres hon mae stori am ddial a'r awydd i ddatgelu'r gwir am drosedd hanesyddol. Mae Bang yn cyflwyno'r stori mewn arddull unigryw trwy harneisio dwy iaith, perfformiadau cofiadwy a thirwedd ddiwydiannol syfrdanol tref ddur Port Talbot."

Bang oedd y gyfres ddrama gyntaf gan S4C i gael ei darlledu gan y BBC yn ei ffurf wreiddiol. Ers hynny, mae'r ddrama wedi ei gwerthu i leoliadau ledled y byd, gan gynnwys Gogledd America a Sweden.

Dechreuodd y gyfres nos Sul 2**3** Chwefror ac fe fydd yn dod i ben 29 Mawrth. Mae modd gwylio'r ail gyfres ar S4C Clic, ynghyd a'r gyfres gyntaf o **Bang** fel bocs set.

Bang
Dydd Sul, 23 Chwefror 9.00
Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael
Ar alw: S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Joio ar gyfer S4C

**Caffi Trwsio yn y Borth**

Mae Canolfan Deulu y Borth yn cynnal 'Caffi Trwsio' ddydd Sadwrn 28 Mawrth.

Bydd gwirfoddolwyr yno i ymgymryd â gwaith trwsio offer neu feiciau neu ddillad yn ogystal â rhoi cyngor DIY I bobl.

Bydd stondin 'rhoi a chymryd' yno hefyd lle gall pobl fynd ag offer nad ydynt eu hangen mwyach a gall eraill eu cymryd yn rhad ac am ddim.

Mae mynediad am ddim ond gan mai elusen yw'r Ganolfan, croesewir cyfraniadau ac mae'n bosib y bydd rhai gwirfoddolwyr yn codi tâl am rannau.

Y nod yw annog pobl i feddwl ddwywaith cyn cael gwared o nwyddau neu offer.

Dywedodd Rachel Grasby, un o weithwyr Cymorth y Ganolfan: "Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda mudiad Adfywio Cymru I weld sut gall cymuned y Borth leihau ei hôl troed carbon, addasu i ganlyniadau newid hinsawdd a byw yn fwy cynaliadwy. Rydyn ni'n gweld gwerth yn y syniad o gynnal Caffi Trwsio gan fod digwyddiad fel hyn nid yn unig yn annog pobl i drwsio yn lle taflu ond mae hefyd yn ffordd o arbed arian a chwrdd â phobl leol eraill dros baned."

Caiff y digwyddiad ei gynnal yng Nghanolfan Deulu y Borth ar Ffordd Clarach rhwng 10yb a 2yp ddydd Sadwrn 28 Mawrth.

Bydd modd prynu te, coffi a chacennau, ac mae croeso i bawb.

Am fanylion pellach, gellid ebostio rachel@borthfamilycentre.co.uk rhwng dydd Mawrth – dydd Gwener.

**Cwrdd a Chlebran**

Mae grŵp Cwrdd a Chlebran yn cwrdd yng Nghanolfan Deulu y Borth yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill 2020.

Grŵp anffurfiol yw hwn ar gyfer gofalwyr sy'n edrych ar ôl teulu neu ffrindiau sy'n dechrau colli eu cof neu'n dioddef o ddementia.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymunedol y Borth, mae'r grŵp yn cwrdd yn y Ganolfan ar Ffordd Clarach bob dydd Llun rhwng 10yb a 12yp am gyfnod cychwynnol o chwe wythnos o 2 Mawrth tan 6 Ebrill.

Os yn llwyddiannus, y gobaith yw y bydd modd parhau gyda'r sesiynau sy'n rhan o ymgyrch ehangach y Borth i ddod yn gymuned dementia gyfeillgar

Bydd gweithgareddau creadigol yn cael eu trefnu, a bydd te, coffi a chinio cartref ar gael. Am fanylion pellach, gellid cysylltu gyda Helen Williams helen@borthfamilycentre.co.uk

**Apêl Eisteddfod 2020**

Drannoeth gêm rygbi'r 6 Gwlad rhwng Cymru a Ffrainc, cafwyd dangosiad arbennig o ffilm y Grand Slam yn sinema Libanus yn y Borth. Derbyniwyd £275 mewn cyfraniadau ar y noson gan ddod â chyfanswm yr arian a godwyd hyd yma gan y pwyllgor apel lleol i 4800. Diolch i Peter a Grug am eu cefnogaeth.

Noson cawl a cherddoriaeth fyw yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las oedd y



Jacob Ifan a Hedydd Dylan



Mae'r caffi trwsio ym mis Mawrth yn dilyn digwyddiad trwsio beiciau a gynhaliwyd yng Nghanolfan Deulu y Borth



**Arian i Amnest**
Mae digwyddiad diweddaraf grŵp Amnest Rhyngwladol y Borth wedi codi £305 at yr achos. Daeth dros drideg o bobl y pentre ynghyd yng nghartref Jenny Williams a Stuart Evans ar gyfer y swper codi arian a gynhaliwyd nos Sadwrn 8 Chwefror. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

# Cronfa Eleri

Sefydlwyd Cronfa Eleri yn 1998, gyda £10,000 o bunnoedd y flwyddyn i'w rhannu (i gynyddu yn ôl chwyddiant). Ers hynny, dosrannwyd dros £308,000 o gymorth i dros 200 o gynlluniau. Er mwyn penderfynu pwy oedd i dderbyn cymorth fe sefydlwyd *Pwyllgor Cronfa Eleri* a fu'n gweithredu bob blwyddyn ers hynny i drafod y ceisiadau am gymorth ac i awgrymu i gwmni *Amgen* sut y dylid dosrannu'r arian. Gweinyddir y ceisiadau gan *Ysgrifennydd (Mygedol) Cronfa Eleri*. Mae hawl gan unrhyw unigolyn, corff neu fudiad wneud cais am gymorth i weithredu prosiectau sy'n unol ag amcanion Y Gronfa - sef "*Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu*." Maint Y Gronfa yn 2019 oedd £19,775. Mae'r Gronfa yn awr ar gau i geisiadau. Y cyfnod nesa ar gyfer ceisiadau fydd Tachwedd 2020 i Ionawr 2021. Mae manylion llawn ar gael ar *www.cronfaeleri.cymru*

Bu natur y cynlluniau a gefnogwyd yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Yn 2019, nifer ceisiadau oedd 17 a cefnogwyd 10 ohonynt. Y cais uchaf oedd £7,500 a'r isaf yn £400. Y gefnogaeth uchaf roddwyd eleni oedd £5,000 a'r isaf yn £400. Y ceisiadau llwyddiannus eleni oedd y rhai gan Neuadd Rhydypennau, Licris Olsorts, Clwb Pêl-droed Bow Street, Ysgol Tal-y-bont, Ysgol Rhydypennau, Ysgol Penrhyn-coch, Cylch Meithrin Rhydypennau, Parc Llandre, Ysgol Pen-llwyn a Neuadd Tal-y-bont.

digwyddiad nesaf ond mae hwn, erbyn hyn, wedi ei ganslo.

**Ffilm – Storm 1938**
Ymhlith clipiau o ffilmiau sydd ar ddangos yng nghyntedd gwaelod LLGC mae clip o hen un am y Borth ar ôl storm 1938. Gellir gweld y ffilm o wneud trefniadau gyda'r Llyfrgell.

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Yvonne a Gwyn James, Bryn Ffynnon. Mae'r ddau wedi dathlu pen blwydd yn 40 yn ddiweddar - Yvonne ddiwedd Chwefror a Gwyn ganol Mawrth. Pen blwydd hapus iawn i'r ddau.


Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor Llun-Sadwrn
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
NICEIC Approved Contractor
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

CIGYDD BOW STREET 01970 828447 Deli BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**

*Mawrth*

22 2.30 Y Parchg Peter Thomas ym Methel
29 10.30 Y Parchg Wyn Morris

*Ebrill*

5 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
12 Sul y Pasg 2.30 Y Parchg Judith Morris
19 2.30 Y Parchg Judith Morris
26 2.30 Y Parchg Peter Thomas ym Methel, Aberystwyth Oedfa gymun

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Gohiriwyd y clwb am y tro.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu a chysylltiadau y diweddar Mike Swift, Tan-y-berth, fu farw ar 25 Chwefror. Tad Paul, Sarah a Karen. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ar 6 Mawrth. Arferai y teulu fyw ym Mryncastell, Bow Street.

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parchg David Francis, Cegidfa, y Trallwm. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i weddw Dorothy a'r merched Mary, Charlotte, ac Elinor. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghroesoswallt ar Fawrth 12fed. Daeth y Parchg Francis i Benrhyn-coch ac Elerch o 1af Gorffennaf 1985 hyd 1993 pan symudodd i ofal eglwysi y Borth, Llangorwen ac Eglwys-fach.

**Cronfa Trefeurig 2020**

Cafwyd te prynhawn buddiol iawn yn Neuadd y Penrhyn ar ddydd Gŵyl Ddewi er mwyn hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol ac i ddathlu dydd ein nawddsant. Diolch i bawb a brynodd docyn ac a ddaeth ar y dydd. Hoffen ni hefyd ddiolch o waelod calon i bawb yng nghymuned Trefeurig a gyfrannodd fwyd a diod i'r achlysur. Roedd





ein byrddau - a'n boliau - yn llawn. Can mil o ddiolch i'r plant i gyd a fu'n ein diddanu - i Steffan am chwarae'r ewffoniwm mor dlws ac i gantorion Ysgol Penrhyn-coch am eich canu prydferth. Diolch i Wendy am baratoi cornel i'r plant, ac i Mari a Lowri am redeg y stondin nwyddau. Codwyd dros £300 i'r Eisteddfod, ac fel esboniodd Elin Jones AC ar y diwrnod roedd hi'n gyfle i ni godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r bwrlwm cyn i'r Brifwyl ymweld â›r sir hon yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Hoffen i hefyd dynnu eich sylw at ocsiwn dawel sydd ganddon ni, diolch i gyfraniad hael iawn gan Wasanaethau Yswiriant Greenlands. Mae nhw wedi sicrhau bod print o lun arbennig yr artist Rhiannon Roberts wedi cael ei gyfrannu i bob un pwyllgor lleol. Mae'r llun yn un a gomisiynwyd yn arbennig i gofio am yr Eisteddfod, a dim on 40 print sydd wedi cael eu cynhyrchu. Mae rhai cynigion wedi dod i law yn barod, felly os hoffech chi hefyd gynnig am y print anfonwch neges ebost at cronfatrefeurig2020@gmail.com neu gysylltu drwy'r dudalen Facebook NEU 07971 917851 CYN 6yh, 31 Mawrth.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Cafwyd cyflwyniad gwybodus, clir a chyffrous gan Ioan Lord yng Nghyfarfod Cymdeithas y Penrhyn nos Fercher 19 Chwefror. Dechreuodd ei ddiddordeb yn y gwaith mwyn pan oedd yn blentyn bach yn cerdded ardal Cwm Rheidol yng nghwmni ei dad.

Gan ddefnyddio lluniau pwrpasol adroddodd hanes cloddio mwyn o'r dechreuadau yn ystod Oes y Rhufeiniaid. Soniodd am dwf y diwydiant yn ystod y 16eg, 17eg a'r 18fed ganrif, gan ddisgrifio bywyd caled y mwynwyr a'u teuloedd, yn cynnwys y gwragedd a'r plant.

Nid ymchwil o lyfrau a dogfennau yn unig oedd gan Ioan. Mae ef a'i ffrindiau yn gyfarwydd â'r ardal ac yn abseilio i berfeddion daear i chwilio am olion y diwydiant. Dyma rai o'r darganfyddiadau maent wedi dod o hyd iddynt yn ddiwedd

Mae'n waith arloesol, ond peryglus, a'r canlyniadau yn hynod werthfawr i'r hanesydd lleol. Roedd clywed am olion y cloddio ym mhentref Tal-y-bont tu ôl i'r 'Black' yn agoriad llygaid i'r rhan fwyaf ohonom. Gwelir ffrwyth ei ymchwil mewn llyfr diweddar: *Rich Mountains of Lead: The metal mining industry of Cwm Rheidol and Ystumtuen (2018)*.

Os hoffech ddilyn Ioan ar daith i ddarganfod olion y gwaith mwyn drosoch eich hun ewch i wefan ANTURON MWYN GORLLEWIN CYMRU: www.midwalesminetours.com/?lang=cy

Mae ganddo ffrwd o fideos diddorol hefyd ar Youtube.

Cafwyd sesiwn gwestiynau ddiddorol ar y diwedd gydag un aelod yn ddisgynydd i gapten yn y gwaith symudodd i Geredigion o Gernyw a wyres i feddyg yn nhref





Aberystwyth oedd yn cofio ei mam-gu yn sôn am ei gŵr yn trin rhai o weithwyr y gweithfeydd.

**Urdd y Gwragedd Penrhyn-coch**

Ein siaradwr gwadd ym mis Rhagfyr oedd Gwydion ab Ifan, yng nghwmni ei dad Ian Huws.

Penderfynodd Gwydion ddod yn wenynwr yn 2014 gyda chymorth ei dad. Roedd Ian yn wenynwr yn y 1960au nes effeithiodd afiechyd ar ei stoc, bu'n rhaid hysbysu'r arolygydd a dywedwyd wrth Ian am losgi popeth, gan gynnwys y wenynfa. Dywedodd Ian nad yw 'cadw gwenyn heddiw mor syml ag yr oedd yn ôl yn ei dydd'. Gwiddonyn Varroa yw poen pob gwenynwr modern, gwiddonyn parasitig sy'n ymosod ac yn bwydo ar y gwenyn mêl, ni chlywyd am y broblem hon yn ystod dyddiau cadw gwenyn Ian yn y 60'ai. Felly nid yw cadw gwenyn yn fêl i gyd wedi'r cyfan!

Fe ddangoswyd i ni sut i osod cwch gwenyn a wnaethpwyd o goed cedrwydd, gyda'i wahanol ddarnau sy'n ymgartrefu'r gwenyn. Eglurodd Gwydion y gellir prynu'r gwenyn frenhines newydd trwy'r post, sy'n costio oddeutu £45. Bydd y frenhines yn deor ar ôl oddeutu 16 diwrnod, ac yn defnyddio ei phigiad am yr unig dro i ladd ei chystadleuwyr - dim ond un frenhines y gall cymuned wenyn ei chael yn y pen





draw. Bydd y frenhines yn paru gyda 20-30 o wenyn drôn ac yn ystod ei hoes (a arferai fod tua 5 mlynedd, y dyddiau hyn 2 flynedd), bydd yn dodwy hyd at 2,000 o wyau. Dywedwyd wrthym fod hyd oes gwenyn chwilota oddeutu 6 wythnos. Yn anterth yr haf, gall cwch gwenyn gartrefu tua 60,000 o wenyn!

Dywedwyd wrthym sut y byddai'r gwenyn yn goroesi gaeaf caled, ond yn casáu gaeaf llaith. I ategu'r diffyg paill ar gyfer y gwenyn yn ystod y misoedd hyn mae Gwydion ac Ian yn gosod blocyn o surfedd (sierbet) yn y cwch gwenyn.

Rhaid nodi fod Gwydion a'i Dad yn aelodau o *Gymdeithas Cadw Gwenyn Cymraeg Ceredigion,* sef yr unig gymdeithas cadw gwenyn Cymraeg yng Nghymru sydd â dau nod: goroesiad y wenynen a goroesiad yr iaith gan ddefnyddio terminoleg cadw gwenyn Cymraeg.

Fe wnaethon ni ddysgu bod ffrâm o ddiliau gyda'r neithdar wedi'i gapio yn dangos bod y mêl yn aeddfed. Fe wnaethon ni hefyd ddysgu bod lliw'r mêl yn dibynnu ar ba fath o neithdar blodau roedd y gwenyn yn ei gasglu, felly mae'n bosib bod mêl tywyllach Gwydion wedi dod o baill o goed lleol a gyda'r mêl ysgafnach mae'n bosib bod y paill wedi'i gasglu o fieri. Mae mêl da yn caledu'n gyflym ac mae mêl hufennog sydd wedi'i osod yn feddal, yn gymysgedd o fêl caled a rhedegog wedi'i chwipio gyda'i gilydd. Soniodd Ian ei bod yn draddodiad bod gwenynwyr yn credu bod yn rhaid iddynt gael eu gwenyn ar y grug erbyn y deuddegfed gogoneddus, y 12fed o Awst, sef dechrau tymor y rugiar.

Tua diwedd y noson ddiddorol, bu rhai o'r Merched yn trafod buddion iechyd mêl o ffynonellau lleol a'i werth meddyginiaethol, cawsom gyfle hefyd i brynu mêl *Y Felin* a gallwn eich sicrhau ei bod yn flasus ac yn cael ei werthu'n lleol.

## "Chwant jinsen fach?"

Yn 2018 gwerthwyd mwy na 66 miliwn o foteli jin yn y Deyrnas Unedig, twf o 41% i'r flwyddyn flaenorol. Fel y diod a'r twf fwyaf o fewn y categori yng Nghorllewin Ewrop, adnabyddir y cyfnod yma fel 'ginaissance'. Yn sgil y galw gan gwsmeriaid am y ddiod feddwol clir, ceir twf mewn nifer y distyllfeydd ar draws y Wlad, wrth iddynt drybli ers 2010. Ceir hefyd naid yng nghynifer nodau masnach jin a chofrestrwyd i 2,210. Ac yn 2017, gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ychwanegu jin i'w basged siopa i fesur effeithiau chwyddiant.

O ganlyniad i batrymau masnach Brydeinig, ceir hefyd chwydd yn nifer o ddistyllfeydd a sefydlwyd yng Nghymru. Un esiampl yw 'In the Welsh Wind', cwmni jin Alex Jungmayr ac Ellen Wakelam, a leolir yn Nhre-saith, Bae Ceredigion. Mae'r busnes yn arbenigo mewn creu gwirodydd pwrpasol yn ei distyllbair copr arbennig, a elwir yn 'Meredith'. Yn gweithio ar raddfa fach, mae'r holl wirodydd y mae'r busnes yn eu creu yn unigryw ac wedi'u teilwra'n arbennig, felly yn galluogi Alex ac Elen i ddatblygu diodydd pwrpasol i'w cwsmeriaid. Yn barod, mae'r distyllfa yn allforio ar draws Ewrop.

Cafwyd cymorth estynedig Busnes Cymru gan y par i sefydlu eu busnes. Rhwng wybodaeth gynghorol ar redeg a chynllunio busnes, i ddatblygu brand a chynllun marchnata. Yn y dyddiau cynnar, roedd angen cyngor arbenigol gan 'In the Welsh Wind' wrth iddynt dderbyn ymholiadau gan gwsmer yn Malta. Cawsant gyngor wrth Anthony Kirkbride, Arbenigwr Allforio Busnes Cymru, gan sicrhau fod y boteli jin o ddistyllfa fach yng Nghorllewin Cymru yn cael ei allforio yn ddidrafferth i Malta, ar amser a heb un broblem. A mae'r archebion yn dal i ddod o Malta!

Medd Elen, "Rydym wedi derbyn profiad cadarnhaol iawn wrth Busnes Cymru. O'n sgwrs cyntaf i gwrdd gyda'r Ymgynghorwyr, mae wedi bod yn gefn mawr i wybod bod rhywun arall ar ben draw'r ffôn. Rydym wedi mynychu sawl cwrs gan Busnes Cymru, oedd yn buddiol iawn."



**Pen blwydd hapus**

Dyma'r haul yn gwenu ar Mr Max Jenkins, clochydd yr eglwys, a fu'n dathlu ei ben blwydd yn 97 mlwydd oed ar ddydd Sul yr wythfed o Fawrth. Dymuniadau gorau iddo



**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sioned Evans a Lionel Orvy Plant, Ger-y-cwm a briodwyd ar 21 Chwefror ym Machynlleth.

**Nôl i'r Penrhyn**
Croeso i Alwena ac Alan Gadman sydd wedi symud i Glanstewi o Fachynlleth. Mae Alwena yn dychwelyd i fyw yn y pentref lle y'i magwyd - yn agos i'w chwaer Gaenor Fenner a'i mam Dolly a John, Bryntirion.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Llio a Derrick Adams, Glyn Helyg, ar ddod yn nain a thad-cu. Ganwyd gefeilliaid - Pererin Ianto a Tabitha Olwen ar 2 Rhagfyr i Lea a Simon Alexander yn Crewe.

**Merched y Wawr**
Nos Iau y 13eg o Chwefror treuliwyd y noson yng nghwmni ein gŵr gwadd, sef Gareth William Jones o Bow Street a oedd wedi dod i sôn i ni beth oedd ystyr yr holl hanes tu ôl i gardiau Sant Ffolant. Syndod oedd deall fod rhai erioed wedi derbyn carden. Y traddodiad oedd 'slawer dydd fod menywod yn derbyn carden dienw. Y syniad oedd fod yna rhywun yn hoff ohonoch heb i chi wybod pwy oedd. Bellach er bod yna bob math o gardiau ac anrhegion ar gyfer Sant Ffolant i gael yn y siopau, mae'r traddodiad gwreiddiol wedi marw allan. Er hynny roedd y noson yn ddiddorol dros ben. Diolchwyd i'n gŵr gwadd ac yna diweddwyd y noson dros cwpanaid a sgwrsio ymysg ein gilydd.

**Cyhoeddi blog**
Da clywed fod Gwenno Morris yn setlo fel athrawes Ysgol y Cwm yn Nhrevelin yn yr Andes ym Mhatagonia. Bydd yn ysgrifennu blog a gellir ei ddilyn yma – dyma rifyn mis Chwefror http://ysgolycwm.com/1/post/2020/03/blog-gwenno-mis-chwefror.html

**Symud ardal**
Dymuniadau gorau i Callum Stone symudodd o Geredigion ar Fawrth 16eg tua'r gogledd i weithio hyda Tîm Amgylchedd Dwyfor a Meirionnydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn Nolgellau

**Newid aelwyd**
Dymuniadau gorau i Wendy a Colin Roberts yn eu cartref newydd ar ôl iddynt symud o Cae Mawr i Ger-y-llan.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
Tim 1af
*Chwefror*
14 i ffwrdd yn erbyn Bae Colwyn - gohiriwyd
21 yn erbyn Conwy - gohiriwyd
29 i ffwrdd yn erbyn Bae Colwyn (ail-drefnwyd)
Bae Colwyn 2 Penrhyn-coch 1

Mawrth
7 Trefyclo 1 Penrhyn-coch 0

**Gêm gwpan Canolbarth Cymru - 8 tim diwethaf - Rownd cwarteri**
Mawrth
10 Y Trallwng 3 Penrhyn-coch 4

**Eilyddion**
Mawrth
7 Penrhyn-coch 1 Prifysgol Aberystwyth 1

**Twrnament Peldroed Ieuenctid - Twrnament Eric ac Arthur Thomas**
SYLWER AR Y DYDDIAD NEWYDD
Dydd Sadwrn 4 Gorffennaf
Timoedd o dan 6, o dan 9, o dan 12 ac o dan 16
Prynhawn Sadwrn - merched o dan 8, o dan 10, o dan 12 ac o dan 14.
Dydd Sul 5 Gorffennaf
o dan 8, o dan 10 ac o dan 14

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Sarah Lloyd, Ger-y-llan; gwelir ei heisiau yn Garej Tŷ Mawr.

**Boreau coffi**
Oherwydd y sefyllfa gyda Covid19 ni fydd boreau coffi yn Neuadd yr Eglwys hyd fis Mai.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus arbennig i Bryan Jones ('yr organ'). I ddathlu ei ben blwydd yn 70 oed ar Fawrth 8fed cynhaliodd gymanfa ganu yn Eglwys St. Deiniol, Llanddeiniol gyda'i ferch Lisa yn arwain, Daniel Smith yn cynorthwyo ar yr organ ac eitemau gan Vernon Maher a CfI Felin-fach. Aeth yr elw i Eglwys St. Deiniol.





Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Gŵyl Ddewi



# Colofn BEN LAKE AS

A hithau'n fis Mawrth, mae fy nyddiadur unwaith eto eleni yn llawn o ddigwyddiadau sy'n codi calon – ciniawau, cyngherddau, gwasanaethau, gorymdeithiau – i gyd wedi'u trefnu er mwyn dod â phobl at ei gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, nawddsant Cymru.

Yn ôl yr hanes, rhai o'r geiriau olaf i Dewi Sant eu hynganu cyn iddo farw oedd "Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i."

Gwnewch y pethau bychain. Dwi wastad yn trio atgoffa fy hun o'r dywediad arbennig hwn wrth i mi fynd ati i gynrychioli cymunedau Ceredigion yn San Steffan. Ry'n ni'n siarad yn aml, yn enwedig ym myd gwleidyddiaeth, bod angen trawsnewid ein gwasanaethau cyhoeddus, angen newid systemau o weithredu, angen chwyldroi ein cyfundrefnau iechyd ac addysg yn gyfangwbl. Ond byddwn i'n dadlau'n gryf bod angen cofio a chanolbwyntio ar y pethau bychain hefyd..

Yn wyneb y sefyllfa wleidyddol sydd ohoni, byddai'n hawdd i ni fel unigolion yng nghefn gwlad Ceredigion deimlo'n ddi-rym a theimlo nad oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i daclo heriau enfawr ein hoes. O'r argyfwng hinsawdd i gryfhau economi cefn gwlad, o atal allfudo pobl ifanc i daclo problemau iechyd meddwl ac unigrwydd mewn cymdeithas – "does dim byd alla' i wneud fel unigolyn, oes e?". Ond o ddechrau wrth ein traed, ac o wneud y "pethau bychain" yn gyson, ac o siarad am yr hyn ry'n ni'n ei wneud gyda chyfeillion, cymdogion a chydweithwyr.... onid oes modd i ni, gyda'n gilydd, wneud gwahaniaeth mawr?

Dwi'n edmygu'n fawr ymdrechion mudiad y ffermwyr ifanc dros yr wythnosau diwethaf sydd wedi bod yn taclo stigma iechyd meddwl ymhlith y gymuned amaethyddol. Cynhaliodd C.FF.I Ceredigion, Sir Gâr a Phenfro noson eithriadol o lwyddiannus yn Nghastellnewydd Emlyn yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth am y pwnc. Mae C.Ff.I. Cymru hefyd wedi mynd ati i recordio a rhyddhau sengl 'Bydd Wych', gyda'r elw yn mynd tuag at elusen iechyd meddwl Cymraeg (www.meddwl.org) – ewch i 'ITUNES' i lawrlwytho copi!

Dim ond rhai engreifftiau yw'r rhain wrth gwrs. Gwn fod yna gannoedd os nad miloedd o bobl, grwpiau cymunedol a mudiadau sy'n gweithio'n ddiflino er mwyn gwella bywydau pobl a gwneud gwahaniaeth yn ein cymunedau gwledig, a diolch byth amdanynt. A dyna'r her dwi'n ei osod i bob un ohonom , heddiw a phob diwrnod o'r flwyddyn; gwnewch y pethau bychain - a phwy a ŵyr, efallai, gyda'n gilydd, y gwelwn ni wahaniaeth mawr.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Chwefror 20fed yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Roedd yna ymddiheuriad oddi wrth un cynghorydd.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Ionawr fel rhai cywir. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn llythyrau o ddiolch am y rhoddion ariannol.

Roedd Cathryn Morgan, Swyddog Datblygu Chwaraeon i Sir Ceredigion wedi ei gwahodd i'r cyfarfod i roi cyngor ynglyn â datblygu Parc Chwarae. Cafwyd trafodaeth ddiddorol a phenderfynwyd mai y cam nesaf oedd cynnal ymgynghoriad efo rhieni a phlant. Awgrymwyd dyddiad - Ebrill 17; bydd mwy o fanylion i ddilyn.

Roedd tri chais cynllunio wedi dod at sylw y Cyngor sef, A200047 Ty Fosi, Pant-y-crug; A200089 Pengeulan, Cwmrheidol a A200062 Bwlch Nant yr Arian.

Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth Pentir Pumlumon i'r digwyddiad yn Nant yr Arian ar Chwefror 27ain.

Noder fod yna sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Mawrth 19eg am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Y CRYNWYR
HOLI AC ADDOLI
CWRDD CYFRWNG CYMRAEG
Y trydydd Sul o'r mis
Ebrill 19 am 3 pm
TŶ CWRDD Maes Maelor
Penparcau SY23 1SZ
CROESO CYNNES I BAWB
Ymholiadau:
01970 612794
medijames22@gmail.com

# BOW STREET

**Capel y Garn**
10.00

*Mawrth*
22 Bugail
29 10.00 Oedfa'r ofalaeth -Pen-llwyn Bugail

*Ebrill*
5 Noddfa
12 Bugail
19 Bugail
26 Adrian Williams

**Capel y Garn**
**Cwrdd Gweddi'r Byd**
Daeth chwiorydd Capel Noddfa, Eglwysi Llanfihangel a Llangorwen, a Chapel y Garn at ei gilydd yn y Garn brynhawn Gwener, Mawrth 6ed i ddathlu Dydd Gweddi'r Byd. Merched Zimbabwe oedd wedi bod yn gyfrifol am lunio'r rhaglen eleni, dan y teitl "Cod! Cymer dy Fatras a Cherdda", ac roedd eu geiriau, a ddarllenwyd yn yr Oedfa gan aelodau ein heglwysi ni, yn adlewyrchu eu dewrder, eu penderfyniad a'u hymroddiad nhw yn wyneb adfyd a chaledi. Braint oedd cael y cip byr ond diffuant yma ar fywyd mewn man arall, gwahanol, a gwybod bod Cristnogion drwy'r byd yn clywed ac yn meddwl am yr un geiriau ar yr un diwrnod. Paratowyd a gweinyddwyd te ar y diwedd gan chwiorydd Capel Noddfa.




**Cylch Meithrin Rhydypennau**
Mae Cylch Meithrin Rhydypennau yn cynnal diwrnod agored i ddarpar rhieni a phlant ar ddydd Sadwrn 21 o Fawrth rhwng 12 a 2yh.


Wedi'i leoli ar safle Ysgol Rhydypennau, mae'r Cylch yn darparu gofal plant i blant 2 oed. Mae'r plant yn cael cyfle i ddysgu a datblygu trwy ystod eang o weithgareddau a phrofiadau wrth gymdeithasu á phlant eraill yr un oedran trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cylch ar agor 5 bore'r wythnos rhwng 9yb a 12yp am bris rhesymol o £10 y sesiwn.

Croeso cynnes i ddarpar rieni a phlant fynychu'r diwrnod agored er mwyn gweld y cyfleusterau a chwrdd â'r gofalwyr a rhieni plant y cylch.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â 07956 072 128 neu cylchmeithrinrhyd@gmail.com

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus iawn i Ffion Wyn Roberts, Carreg-wen, sydd newydd ddathlu ei phen blwydd yn 21 oed ar 9 Mawrth. Mwynha'r dathlu, Ffion, a phob dymuniad da oddi wrth y teulu i gyd.





**Merched y Wawr**
Ymlwybrodd aelodau o'r gangen draw am dafarn a bwyty 'Half Way', Pisgah i ddathlu noson Gwyl Ddewi. Noson wlyb a gwyntog oedd hi ond wnaeth y tywydd amharu dim ar noson gymdeithasol llawn hwyl.

Cafwyd pryd nodweddiadol Gymreig arbennig iawn gan berchennog a staff y bwyty. Croesawyd ni i gyd a'r Wraig wadd, Mrs Caryl Gruffydd Roberts gan ein Llywydd, Mrs Mair Lewis. Mae Caryl yn gyfarwydd i ni i gyd fel un o gyflwynwyr Fferm Ffactor.

Trefnodd Caryl weithgareddau diddorol a hwyliog iawn i ddilyn y wledd. Profi cynnyrch amaeth e.e amrywiol gaws a chig. Diolch i'r rhai gymerodd ran yn yr arbrofi.

Enillwyd y raffllau gan Lisa Davies, Gweneira Williams a Maria Owen. Diolch i Margaret, Mair a Maria am drefnu noson gartrefol gwerth chweil yng nghwmni Caryl.

Diolch yn fawr i Iestyn Hughes am ddod draw i dynnu llun ohono ni i gofio›r noson.





**Actores leol**
Gwelwyd Cêt Haf, Bryn Castell, yn actio gyda chwmni'r Frân Wen pan fuont yn perfformio Llyfr glas Nebo (Manon Steffan Ros) yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ddiweddar.



Haf ap Robert yn cyfarfod Ryan Giggs oedd ar ymweliad â Machynlleth.

**Dathlu cyfraniad oes y Parch Elwyn Pryse**
Bore Sul, 8 Mawrth, braint oedd croesawu'r Parch Elwyn Pryse i bulpud Capel y Garn i arwain yr oedfa. Roedd yr achlysur hefyd yn gyfle i ddiolch iddo am ei gyfraniad amhrisiadwy i bregethiad y Gair mewn nifer o froydd ledled Cymru am gyfnod o dros 70 mlynedd.

Ar ddiwedd yr oedfa, darllenodd Vernon Jones gerdd o ddiolch i'r Parch Elwyn Pryse am ei wasanaeth, a chyflwynodd Alan Wynne Jones lun wedi'i fframio iddo ar ran Eglwys y Garn.

Yn dilyn hynny, aeth nifer dda o'r gynulleidfa – o Gapel y Garn a Madog – draw i gymdeithasu dros ginio yng Nghlwb Golff y Borth. Cafwyd gair pellach o gyfarchiad i'r Parch Elwyn Pryse gan yr Arglwydd Elystan-Morgan, a fynegodd ei werthfawrogiad o'i gyfraniad unigryw. Dymunwn bob bendith iddo yn y dyfodol, ac edrychwn ymlaen at gael rhagor o'i gwmni'n addoli gyda ni yn y Garn o Sul i Sul.



**Y Parch Elwyn Pryse**
Diwylliant hen y bryniau
Ledaenaist gyda'r Gair
I'th braidd drwy rin Efengyl
Gwyrthiol blentyn Mair.
Yn heulwen ein llawenydd
A thristwch awel groes
Ar allor ac ar aelwyd
Gweinyddaist drwy dy oes.

**VJ**



**Cyfeillion Tregerddan**
Cyflwynodd Cyfeillion Cartref Tregerddan gadair go arbennig i'r cartref yn ddiweddar. Bydd y gadair hon yn hwyluso gwaith y staff ac yn ychwanegu at gysur y preswylwyr. Mae'r Cyfeillion yn brysur drwy'r flwyddyn yn casglu arian ac yn trefnu nifer o weithgareddau er mwyn cynorthywo'r staff i wneud bywyd y preswylwyr yn un hapus.



Lynn Phillips gydag enillydd Cân I Gymru Gruffydd Wyn, Amlwch yn dilyn ei fuddugoliaeth ar Chwefror 29.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 27 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Gynghorwraig Meinir Lowry. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd Paul Hinge, y bydd gwaith ar ddatblygu y gyfnewidfa gorsaf Bow Street a'r gyffordd newydd o ffordd y canolbarth yn ymestyn ymlaen tan 14 Awst. Bydd hyn yn amharu ar drafnidiaeth ymwelwyr yr haf o gyfeiriad y canolbarth, ac o bosibl trafnidiaeth y gogledd i Eisteddfod Genedlaethol Tregaron yn ystod wythnos gyntaf Awst. Bydd llythyr yn cael ei ddosbarthu i bob tŷ yn fuan i egluro yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn amserlen y cynllun uchod.

Y teimlad cyffredinol yn yr ardal ers tro bellach yw ei bod yn bryd i Bow Street gael llonydd, a chanolbwyntio ar bethau sydd gwir angen eu gwneud, megis llanw tyllau ac uwchraddio Y Lôn Groes, fel y cyfeiriwyd yn ddiweddarach yn y pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Hinge yn y cyfarfod diwethaf, bod angen annog trigolion yr ardal i fod yn ymwybodol o beth sy'n digwydd o'u cwmpas a phwy sy'n symud i'r ardal os oes unrhyw ddrwgdybiaeth yn eu meddwl ac i gysylltu â'r Heddlu neu y Cyngor Sir.

Adroddodd y clerc bod gosod dwy fainc yn Bryncastell yn mynd ymlaen a'i fod hefyd wedi trefnu y gwaith o osod yr hysbysfwrdd ger Siop Spar. Derbyniodd gais hwyr ond dilys am gymorth ariannol oddi wrth CAB a Chlwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont. Cyfrennir £200 yr un iddynt. Eglurodd am faterion technegol ynglŷn â phwrcasu polyn gosod polyn y faner ar dir Afallen Deg. Cwmni o Nottingham sy'n darparu polyn fibreglass.

Byddwn yn ymaelodi gydag Un Llais Cymru eleni eto, a thelir am wasanaeth Technegau Taliesin am edrych ar ôl ein gwefan. Hefyd daeth amser talu cyflog y Clerc, cytunwyd talu rhain i gyd.

Derbyniwyd nifer o enwau ymgymerwyr i gynnig am y gwaith o dorri porfeydd y meysydd chwarae.

Yn ei adroddiad dywedodd y Cynghorydd Hinge bod gwaith yn mynd ymlaen i dorri coed Ffawydd sydd wedi eu heintio, ger tro uchaf Rhiw Cwm Cynfelyn tuag at yr Amlosgfa. Adroddodd ar y datblygiadau ar faes gwyliau Glan Môr Clarach, nid yw'r newidiadau yn effeithio ar neb. Bydd y lle wedi ei foderneiddio yn chwaethus.

Daeth cwynion am ddŵr sy'n gorlifo i ran o ystâd Bryncastell, a phenderfynwyd galw sylw yr asiantaethau priodol. Mae parcio answyddogol ym maes parcio Neuadd Rhydypennau yn peri llawer o drafferth, ac yn ei gwneud yn anodd i'r mynychwyr ac yn enwedig i'r anabl.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 26 Mawrth.

# Gŵyl Offerynnol Rhanbarth Ceredigion yr Urdd



Llongyfarchiadau i Osian King, Bow Street ac Ysgol Gyfun Penweddig ar ddod yn ail yn yr unawd pres Bl 7-9



Llongyfarchiadau i Heddwyn ap Ioan Cunningham, Llandre ac Adran Aberystwyth ar ddod yn ail ar yr unawd chwythbrennau a Bl 7-9



Llongyfarchiadau i Dyfri ap Ioan Cunningham, Llandre ac Adran Aberystwyth ar ddod yn gyntaf ar yr unawd gitâr Bl 7-9.



Llongyfarchiadau i Betsan Downes, Penrhyn-coch ac Ysgol Gyfun Penweddig ar ddod yn gyntaf yn yr unawd pres Bl 7-9 ac ail yn yr unawd llinnynol Bl 7-9.




Llongyfarchiadau i Steffan Rhys Jones, Penrhyn-coch ac Ysgol Llanilar ar ddod yn gyntaf yn yr unawd pres Bl 7-9; hefyd. Llongyfarchiadau iddo hefyd am ddod yn gyntaf yn yr eisteddfod gylch am lefaru unigol bl 5 a 6 a cyntaf gydag Owen Jac Roberts – sydd â chysylltiad â Phenrhyn-coch – ŵyr Sue a Mervyn Hughes - ar y ddeuawd dan Bl 6 ac iau.

Llongyfarchiadau hefyd i Gruffydd Sion – gweler t.18 Ysgol Rhydypennau.




**gan Daniel Johnson - ysgogydd Bro360 yng ngogledd Ceredigion**

Helo bawb!
Yn yr amser ers i mi iste lawr i sgwennu fy ngholofn ddiwethaf yn *Y Tincer,* mae hi di bod yn gyfnod cyffrous i BroAber360. Cynhaliwyd sesiwn yn AradGoch cwpwl o wythnosau nôl lle buom yn trafod y mater hynod gyffrous o lansio'r wefan yn swyddogol, felly cadwch lygad mas am hwnna!

Mae llwyth o straeon diweddar gan bobol o'r fro wedi ymddangos dros y mis dwetha, megis darn gan Bennaeth dros dro Ysgol Penrhyn-coch, Rhian Cory, am ddisgybl yn ennill £1000 mewn cystadleuaeth, a darn gan Richard Owen am ddigwyddiad Hwyl Ddewi Penrhyn-coch. Ewch am dro i broaber360.cymru i'w mwynhau ac i adael sylwadau. Cofiwch y gallwch 'ddiolch' am stori hefyd, drwy bwyso'r botwm o dan y stori!

Wrth i'r tywydd braf agosau, ma' na lwyth o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal o gwmpas y fro. Oes 'da chi ddigwyddiad chi ishe rhoi sylw î? Mae croeso chi ddefnyddio calendr digidol y wefan - y lle newydd i grynhoi holl ddigwyddiadau gogledd y sir.
ewch i BroAber360.cymru
crëwch gyfri trwy
bwyso 'Ymuno' a dilyn y cyfarwyddiadau
ewch i 'Creu > Digwyddiad'.

Os oes gennych syniad am stori, neu os hoffech drafod y wefan neu gael cyngor, byddaf mewn caffis lleol bob diwrnod, neu cysylltwch ar daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Rhodd Cwmnïau**

Cafodd Ysgol Pen-llwyn rodd werthfawr iawn yn ddiweddar trwy garedigrwydd dau gwmni a fu yn adnewyddu y cablau trydan yn Statkraft Cwmrheidol. Bu Gerwyn Ellis a' i weithwyr yng nghwmni H& A.R.Ellis yn gwneud gwaith I AMS Trenchless a Cwmni Excalon ac mi 'roedd y ddau gwmni am gefnogi Ysgol Pen-llwyn fel gwerthfawrogiad o ymroddiad Gerwyn a'i weithwyr. Derbyniodd yr Ysgol dri I-Pad newydd a £500.00 i wario ar offer technoleg newydd. Anrhegion gwerth chweil ar ddechrau blwyddyn newydd.



**Urdd y Gymuned**

Cynhaliwyd ein noson gawl flynyddol eleni eto yng Nghanolfan Groeso Statkraft. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a hyfryd oedd cael cwmni cymaint o blant. Paratowyd y cawl gan Eurgain Ellis a Beti Daniel gydag aelodau yr Urdd yn cyflawni y llysiau. Noson hyfryd a chymdeithasol iawn.

**Dramau**

Cynhaliwyd noson o ddramau yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a Trisant. Llywydd y noson oedd Menna Stephens, Penuwch, ond i ni Menna Dolgamlyn. Bu Menna yn aelod gweithgar iawn o Glwb Trisant ac wedi bod ar y llwyfan yn actio lawer gwaith. Cafwyd araith bwrpasol iawn ganddi a rhodd anrhydeddus i goffrau Clwb Trisant. Llongyfarchiadau i aelodau y ddau glwb am noson yn llawn hwyl a sbri.

# GOGINAN

Cynhaliwyd pwyllgor gan Gymdeithas Goginan gydag Elin Jones, AC, Ben Lake AS a'r Cynghorydd Rhodri Davies i'w hysbysu o ofidiau pobl yr ardal am gyflymdra y traffig drwy'r pentre a gofyn iddynt a oedd modd gwneud rhywbeth ynglyn â'r broblem. Cafwyd sgwrs ddifyr a chafodd y gymeithas lawer o awgrymiadau â phwy i gysylltu gyda a hefyd addewid o gefnogaeth y tri.

Mae'r Gymdeithas wedi ei sefydlu fel elusen ac maent hefyd wedi prynu darn o dir ar bwys yr afon Melindwr ac fe fyddent yn hoffi clywed oddi wrth unrhyw aelod o'r ardal am syniadau sut y byddent yn hoffi gweld y tir yn cael ei ddatblygu orau er mwynhad y brodorion. Os ydych eisiau dod a siarad gyda'r pwyllgor maent yn cael barbaciw bach bore Sadwrn Ebrill 4 ar y tir (os bydd y tywydd yn caniatàu) er mwyn sgwrsio am hyn. Croeso i bawb.



Elin Jones AC, Ben Lake AS a Rhodri Davies Cynghorydd Lleol



Brodorion Goginan ar ôl y pwyllgor gyda Ben Lake, Elin Jones a Rhodri Davies

## MADOG

**Gwasanaethau Madog**
2.00
*Mawrth*
22 Bugail
29 10.00 Oedfa'r ofalaeth -Pen-llwyn Bugail

*Ebrill*
5
12
19 Bugail
26 Adrian Williams

**Pasio prawf**
Llongyfarchiadau i Aneurin Lewis Rowlands, Cwm Main ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

**Cofion**
Rydym yn anfon ein cofion at Mr Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi sydd yng Nghartref Allt y Mynydd, Llanybydder.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus iawn i Shirley Evans, Llain-y-felin, Cefn-llwyd, sydd yn dathlu ei 50 ar y 19 o Fawrth.

**Dawn dweud**
Llongyfarchiadau i Lleu a Caeo Price, wyrion Eirian ac Arthur Hughes, Lluest Fach - aelodau gyda Sara o dîm siarad cyhoeddus Aelwyd Hafodwennog, ger Caerfyrddin, ar lwyddo i gyrraedd y rownd gyn-derfynol yn nghystadleuaeth Radio Cymru Y Ddadl Fawr. Dymuniadau gorau iddynt yn y rownd nesaf.

Cynhelir y rownd gyn-derfynol yn y Drwm LLGC dydd Mercher 18 Mawrth.



# Cylch Cinio

Prifweithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Pedr ap Llwyd oedd gŵr gwâdd y Cylch Cinio yn ein cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty'r Richmond.

Ar ddechrau ei anerchiad cyhoeddodd ei fod wedi penderfynu dod yn aelod o'r Cylch a chafodd hynny groeso twymgalon gan yr aelodau.

Rhoddodd i ni hanes ei deulu a'i fagwraeth. Roedd ei hen dad-cu yn ficer ar eglwys enwog St Michael's-in-the-Field yn Sgwâr Traffalgar yn Llundain ond fe brofodd y teulu rwystrau ac anawsterau mawr a chymhleth o dristwch a thlodi. Bu bywyd yn anodd i'r teulu am sawl cenhedlaeth. Cawsom bictiwr dadlennol a gonest o'r cyfnod a arweiniodd iddo gael anhawster fel person o gefndir tlawd a difreintiedig i gael ei dderbyn i mewn i gymdeithas Gymreig y cyfnod. Brodor o Shoreditsh, Llundain oedd ei dad a'i fam o Benrhyndeudraeth ac yno yng Ngwynedd y cafodd ei fagu yn ôl ei ddisgrifiad ei hun, mewn 'cartref di-lyfr'. Cyfeiriodd at y llyfr cyntaf iddo ei brynu a hynny am bris da yn Ffair y Blaid ym Mhenrhydeudraeth ac nid rhyfedd mai'r *Bywgraffiadur* oedd y llyfr hwnnw. Cyfeiriodd at gyfnod hir o salwch meddwl a ddioddefodd a llawer o hynny yn deillio o gymlethdodau ac amgylchiadau ei fagwraeth ac eglurodd bod y cyflwr hwnnw wedi golygu triniaethau ond ei fod bellach wedi ei reoli.

Dechreuodd ar ei yrfa yn y banc yn y Bermo a Phwllheli ac er iddo gael cynnig mynd i ddilyn cwrs yng ngholeg y banc yn Llundain penderfynodd newid cyfeiriad. Aeth yn fyfyriwr i Goleg Harlech ac yna ymlaen i Brifysgol Gogledd Cymru Bangor lle derbyniodd radd BA y n y Gymraeg a gradd MA mewn hanes. Er ei fod mewn llinach anrhydeddus iawn yn ei swydd fel Pennaeth y Llyfrgell Genedlaethol mae ei weledigaeth o safbwynt y swydd o reidrwydd yn wahanol. Soniodd gyda balchder mawr am lwyddiant y datblygiadau mawr yn y Llyfrgell yn enwedig o safbwynt digideiddio a datblygu archif yn enwedig deunydd radio a theledu a darparu ar gyfer twristiaeth diwylliannol. Dywedodd mai gwaith y Llyfrgell yw creu, cadw a rhannu gwybodaeth ac er bod yna wasanaethau gwerthfawr iawn i academyddion pwysleisiodd bod y casgliadau yn perthyn i bobol Cymru ac mae am barhau gyda'r broses o sicrhau bod gwasanaethau'r Llyfrgell yno i bawb o bob cefndir.

Cyfeiriodd at un prosiect mae'n awyddus iawn i'w gyflawni yw ceisio dod i hyd i Goron Arthur a Chroes Naid a'u dychwelyd i Gymru. Mae'r ddau yn greiriau cysegredig y genedl Gymreig a gafodd eu cipio gan Edward 1 a'r sefydliad Seisnig adeg cwymp Llywelyn yn 1282. Ceir sawl damcaniaeth yn eu cylch ond cred rhai bod Coron Arthur wedi ei doddi er mwyn ei ail ddefnyddio'r aur Cymreig at ddefnydd teulu brenhinol Lloegr ond mae eraill yn dadlau bod y Groes yn dal ar gadw yn Lloegr.

Diolchwyd i'r siaradwr gan yr Is-Gadeirydd John Williams a hynny yn ei ddull dihafal ei hun a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd ac yn enwedig gyda'r ymgais i sicrhau bod trysorau'r genedl yn cael eu dychwelyd i'w priod le yma yng Nghymru. Enillydd y raffl oedd Lewis Owen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd Sion Griffiths at nifer o'r aelodau gan gynnwys Dr Richard Edwards sydd wedi bod dan driniaeth yn ddiweddar, John Lewis ar ddod yn dad-cu a Illtyd Griffiths sy'n pysgota yn yr Ariannin. Dymunwyd gwellhad buan i John Harries sydd wedi cael damwain go arw wrth sgio ar y piste a chroesawyd Aled Morgan (y bwtshiwr) fel aelod newydd o'r Cylch. Eglurodd Wynne Melville Jones am y bwriad fydd dathlu mewn achlysur arbennig ar Faes Eisteddfod Ceredigion 2020 mai'r Cylch Cinio sydd yn rhoi'r gadair yn Eisteddfod Fawr Tregaron ym mis Awst. Mae'r gadair o waith un aelodau'r Cylch, cyn athro gwaith coed Ysgol Penweddig Rees Thomas, yn dod yn ei blaen yn hwylus.

Ein siaradwr gwâdd yr mis nesaf fydd Dafydd Morris Jones.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**
Mawrth
22 2.00 Eifion Roberts
29 10.00 Oedfa'r ofalaeth -Pen-llwyn Bugail

Ebrill
5 10.00 Bugail
12 10.00 Pasg – y Garn Unedig
19 10.00 John Tudno Williams
26 10.00 Ifan Mason Davies

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Mae Cylch Meithrin Pen-llwyn wedi bod yn brysur yn gweithio ar y thema "mae'n iawn i fod yn wahanol". Cafwyd ymweliad â Chartref Tregerddan lle bu'r plant yn diddanu, chwarae a lliwio gyda'r preswylwyr. Rydym yn ceisio ymweld â'r Cartref unwaith y tymor ac mae pawb yn cael amser gwych bob amser. Cynhaliwyd Eisteddfod y Cylch ar brynhawn Gwener, Chwefror 28ain gyda'r plant yn gwisgo mewn gwisgoedd traddodiadol. Diolch yn fawr i Bethan Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn a Catryn Lawrence, Aberystwyth (ac Emrys a Roni) am roi o'u hamser I feirniadu'r plant. Gwerthfawrogwn eich caredigrwydd yn fawr. Cafwyd prynhawn hwyliog gyda phob plentyn yn rhoi o'u gorau. Dathlwyd Diwrnod y llyfr yn y Cylch ar ddydd Iau, Mawrth 5ed lle gwnaeth y plant (a Miss Shirley) wisgo fel cymeriad o'u hoff lyfr. Cynhelir Helfa Wyau Pasg blynyddol y Cylch yn Ysgol Pen-llwyn ar ddydd Sul, Mawrth 29ain am 2 y prynhawn. Estynnir croeso cynnes i bawb.







**Merched y Wawr Melindwr**
Nos Fawrth cyntaf y mis mi wnaethom ddathlu Gwyl Ddewi yng ngwesty y Richmond yn y dref. Oherwydd salwch methodd Eurig Salsbury ein diddanu ond mi gamodd Tegwen Morris, trefnydd cenedlaethol Merched y Wawr i'r adwy. Testun ei haraith oedd Y Fraint o Fod yn Gymraes. Trwy gyfrwng pwynt pwer aeth a ni ar daith drwy ei bywyd, dechrau yn fferm Allt-goch, Ffaldybrenin; Ysgol Llan-y-crwys, ymlaen i Ysgol Llambed, Coleg y Drindod a Phrifysgol Caerdydd. Aeth i weithio gyda Menter Iaith Bro Ddyfi gan ymuno gyda y Ffermwyr Ifanc ac Aelwyd Bro Ddyfi. Ar gyfer ei chwrs MA bu yn gwneud prosiect gyda gweision fferm a bu yn casglu llawer o wybodaeth oddi wrth rhai a dreuliodd eu hoes yng nghefn gwlad. Ei gobaith yw ail afael yn y prosiect yma rhyw ddiwrnod.

Mae wedi bod yn Swyddog Datblygu Merched y Wawr ers ugain mlynedd, ac mi gawsom fraslun o'r holl brosiectau a chasgliadau mae wedi bod ynghlwm â nhw dros y blynyddoedd, ac fel mae y gwaith yma wedi newid bywyd gwragedd yn y wlad yma a dros y byd.Llywyddwyd y noson gan Eirwen McNulty a diolchodd yn cynnes iawn i Tegwen ac i Westy'r Richmond am y wledd flasus.

Y noson ganlynol aeth nifer o' r aelodau I fwynhau noson o gawl ac adloniant ar wahoddiad Merched y Wawr Bronnant. Ar ôl mwynhau gwledd mi wnaeth dau o Bois y Fro, Efan Williams a Bari Powell a Manon Fflur Jones ar y piano ein diddanu. Noson draddodiadol Gymreig yn wir a phawb yn mwynhau gwrando ar ein hoff ganeuon. Diolchodd Eirwen McNulty yn gynnes iawn i Ferched y Wawr Bronnant am noson hyfryd iawn.

**Gwaeledd**
Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i'r canlynol:
Mr. David John, Fferm y Cyncoed, Mrs. Margaret Dryburgh, Murmur y Coed y ddau wedi treulio peth amser yn yr ysbyty, a hefyd Mrs. James, Eryl a gafodd ddamwain yn ei chartref yn ddiweddar. Brysiwch wella yw dymuniad y gymuned gyfan i chi eich tri.

**Dydd Gweddi Byd Eang 2020**
Cynhaliwyd cyfarfod Gweddi Byd Eang yn festri Capel Pen-llwyn ar y 6ed o Fawrth. Cymerwyd rhan gan aelodau Capel Pen-llwyn ynghyd ag aelodau o gapel Dyffryn, Goginan a Llwyn-y-groes, Cwm Rheidol ac aelodau o Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor. Gwragedd Cristnogol Zimbabwe oedd yn paratoi'r rhaglen am eleni. Thema y gwasanaeth oedd "Cod Cymer dy Fatras a Cherdda", rhan yn seiliedig ar bennod 5 o Efengyl Ioan. Cafwyd anerchiad fendithiol dros ben gan y Parchedig Judith Morris a hyfryd oedd cael cwmni ei phriod, Y Parchg Wyn Morris yn yr oedfa hefyd. Cyfeiliwyd gan Miss Delyth Davies a pharatowyd cacennau y wlad arbennig yma (Zimbabwe) ganddi. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Parchg a Mrs. Watcyn James am eu methiant i fod yn bresennol ar y noson. Mwynhawyd amser i gymdeithasu dros baned ar y diwedd. Diolch i bob un a gyfrannodd er sicrhau llwyddiant y cyfarfod.



## LLANDRE

**Actores orau**
Da iawn Lois Medi, Pantyperan, am ennill y 3edd wobr fel yr actores orau o dan 16 oed yng nghystadlaethau drama y Ffermwyr Ifanc.

**Merched y Wawr**
Cawsom sgwrs ddiddorol gan Winifred Davies ym Merched y Wawr Llandre nos Lun 20 Ionawr. Roedd yn sôn am ei hamser ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn y Brifysgol yn gwirfoddoli i weithio yn y wasg leol HONNO sefydlwyd yn lleol ym 1986. Diolchodd Nans Morgan yn fawr iddi ar ddiwedd y nos am ein diddori ni mor effeithiol.

Prynhawn dydd Llun Chwefror 17 aeth MYW Llandre i Glwb Golff y Borth i ddathlu cinio Gŵyl Ddewi lle y cawsom pryd hyfryd o fwyd.



## Ysgol Craig yr Wylfa

**Canu i'r Henoed.**
Diwedd mis Chwefror cafodd yr Ysgol ei gwahodd i ddiddanu'r Henoed yn Neuadd y pentref. Bu'r plant yn canu ac yn adrodd eu rhannau Eisteddfodol iddynt. Diolch yn fawr i'r henoed am y croeso ac am y diod a chacennau ar ôl iddynt orffen perfformio.

**Eisteddfod Ysgol**
Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol lawr yn Neuadd y pentref ar y 5ed o Fawrth. Roedd y plant wedi gwneud ymdrech i wisgo eu gwisgoedd Cymreig neu grysau rygbi. Braf oedd gweld pawb wedi gwneud eu gorau glas ar y llwyfan, ond yn bennaf oll – eu gweld nhw'n ddigon hyderus i fynd i'r llwyfan ac yn mwynhau perfformio. Hefyd roedd y plant wedi cystadlu yn y gystadleuaeth celf (tynnu llun 2D) a llawysgrifen. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu ym mhob cystadleuaeth! Arbennig!

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

GWASANAETH
**TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
**IONA BAILEY**
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
**01974 831580**

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
**01970 880627**

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
**01970 617120**
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



GWASANAETH
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Ysgol Penrhyn-coch

**Eisteddfod Ysgol**

Roedd hi'n ddiwrnod i'r brenin ar ddiwrnod Eisteddfod. Bu cystadlu brwd. Trowch i drydar yr ysgol er mwyn darganfod y canlyniadau i gyd. Hoffwn ddiolch i'r canlynol, sef y beirniaid, Mr. John Jones (Llefaru), Mrs. Neli Jones (canu) i'n cyfeilydd am y dydd, Mr. Tudur Jones ac i aelodau'r PTA am eu cymorth hwy hefyd. Llongyfarchiadau i Seilo a Melindwr am ennill yr Eisteddfod eleni o drwch flewyn.

**Cadair Eisteddfod Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn**

Llongyfarchiadau i Siân, 'Brenhines y Byd', am ennill Cadair Penrhyn-coch ac i Charlie 'CH', am ennill Cadair Pen-llwyn, drwy gofnodi cerdd o dan y teitl 'O am fyd rhyfeddol'.

**Sioe 'Tu fewn, tu fas' Arad Goch**

Cynhyrchwyd drama arbennig gan Arad Goch o'r enw 'Tu fewn, tu fas'. Sioe oedd yn ymwneud â datblygu unigolion iach, hyderus. Cawsom y fraint o gael y sioe yn yr ysgol a chynhaliwyd gweithdy dawns i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6. Can ddiolch i griw Arad Goch am berfformiad pwerus, dealladwy i'r disgyblion ac yn bwysicach na dim yn hollbwysig iddynt.







**Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy diogel**

Ar y diwrnod yma eleni bu'r disgyblion yn gwneud gweithgareddau am eu hunaniaeth ar-lein a'r pwysigrwydd o aros yn ddiogel ar-lein pan yn gwneud amryw o weithgareddau e.e. chwarae gêmau ar-lein, danfon negeseuon, a.y.b.

**Dydd Miwsig Cymru**

Eleni ar ddydd Miwsig Cymru bu'r disgyblion yn gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg, darganfod beth oedd hoff gân yr ysgol, creu basdata a chymryd rhan yng nghwis BBC Radio Cymru. Breuddwyd roc a rôl yn wir!

**Beicio bl. 6**

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 gyfle i ddysgu sgiliau beicio er mwyn beicio ar y ffordd fawr.

**Te Gŵyl Ddewi**

Bu'r disgyblion yn cynnig adloniant i gymdeithas Penrhyn-coch ar ddydd Gŵyl Ddewi. Braf oedd gweld y neuadd yn sang-di-fang. Diolch i Ms. Sara James am gyfeilio i ni. Diolch hefyd am y croeso cynnes a'r cacennau blasus gawsom ni!

**Dinohire!**

Bu dinosoriaid yn ymweld â disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar. Am antur a hanner!





**Cwis Dim Clem**

Trip i Felin-fach ar gyfer y rownd cyn-derfynol a gafodd Betsan, Imogen, Lois a Siân. Fe wnaethant yn dda iawn wir yn y cwis am Gymru ac roeddynt wedi mwynhau mas draw.

**Cystadleuaeth Llaeth y Llan**

Llongyfarchiadau enfawr i Elis am ennill £1000 i'r ysgol am ddylunio a chreu lamp trwy ailgylchu potiau iogwrt Llaeth y Llan. Campus!


## Cronfa Goffa'r Fonesig Grace James

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2019.

Yr ysgrifennydd yw:
Delyth Davies, Bryn Siriol, Lluest,
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3AU
01970 617397
e-bost delythdavies6@gmail.com







STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

# Ysgol Rhydypennau





**Dathliadau Gŵyl Dewi**

I ddathlu Gŵyl Dewi eleni cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg Gymreig a chafwyd cawl cennin i ginio. I ychwanegu at y dathliadau, trefnwyd ymweliad gan neb llai na'r Welsh Whisperer ei hun! Yn ystod y diwrnod, bu'n cydweithio â phlant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 trwy rannu syniadau er mwyn cyfansoddi cân arbennig. Perfformiwyd y gân o flaen plant y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol, ac yn hwyrach, yn Neuadd Rhydypennau i gynulleidfa o rieni a chyfeillion yr ysgol. Llwyddwyd i godi £460 ar y noson. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth, diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol a diolch arbennig i'r Welsh Whisperer am ei waith gyda'r plant yn ystod y dydd ac am gynnal noson mor wych yn neuadd y pentref gyda'r hwyr.

**Diwrnod y Llyfr**

Eleni, dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar y 5ed o Fawrth. Trefnwyd nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod y diwrnod; Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i wisgo gwisg yn ymwneud â'u llyfr dosbarth, bu plant blwyddyn 3 a 4 yn brysur ers rhai wythnosau yn cynllunio a chreu penwisgoedd dreigiau ac fe ddaeth plant blwyddyn 5 a 6 i'r ysgol wedi gwisgo fel 'Enwogion Cymru.' Diolch i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau 'Diwrnod y Llyfr' llwyddiannus iawn.

**Gŵyl Offerynnol yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i Gruffydd Siôn, blwyddyn 6 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth unawd pres blwyddyn 6 ac iau yng Ngŵyl Offerynnol Ranbarthol yr Urdd. Hefyd ar ddod yn gyntaf ar yr unawd gerdd dant Bl5-6 yn yr Eisteddfod Gylch.

**Penwythnos Llangrannog**

Os y cofiwch chi yn y rhifyn diwethaf o'r *Tincer* am blant blwyddyn 4 yn mwynhau profiad preswyl lawr yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog; yn anffodus doedd dim llun ar gael! Wel, dyma lun o'r criw yn mwynhau.

**Clwb Cant**

Dyma'r canlyniad:
1af: £25 - Catrin Flanders.
2il: £15 - Amanda Payne.
3ydd: £10 - Sara Mitchell





ecodyfi

## Ffermio Cymysg

Oes gennych chi...

- Cofnodion ffermio
- Ffotograffau'n ymwneud â ffermio
- Dyddiaduron neu gyfnodolion
- Deunyddiau sy'n gysylltiedig â ffermio lleol

Galwch heibio i'n **Diwrnod Digideiddio Cymunedol** yn **Y Plas, Machynlleth ddydd Mercher 15 Ebrill** rhwng **10yb a 2yp** i rannu'ch hanes.

Sefydliad lleol yw ecodyfi sy'n ceisio defnyddio hanes ffermio ac amaethyddiaeth gymysg Cymru i gefnogi dyfodol cynaliadwy.
**Fe allwch chi helpu!**

Dewch â'ch hen gofnodion ffermio, ffotograffau a mwy gyda chi, fe allwn eu sganio ar y safle.

LLGC NLW LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# Ysgol Pen-llwyn

**Eisteddfod Ysgol**
Aethom draw i Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch ar gyfer Eisteddfod y ddwy Ysgol eleni. Cawsom wledd o gystadlu. Roedd hi'n gystadleuaeth go agos ond Melindwr a Seilo daeth i'r brig eleni eto.

**HWB**
Daeth nifer o rieni i gyfarfod HWB ar ôl Ysgol i ddysgu sut i ddefnyddio meddalwedd Just2Easy a chwilio gwaith y plant ar HWB. Roedd yn braf cael rhannu holl waith technoleg y plant.

**Ffosiliau**
Diolch yn fawr i Marie o Brifysgol Aberystwyth am ddod i ddysgu plant y Cyfnod Sylfaen am ffosiliau a dangos rhai mawr iawn. Roedd y plant wrth eu boddau yn edrych ar y ffosiliau a'u teimlo nhw wrth gwrs!

**Seiclo**
Mae plant Blwyddyn 5 a 6 wedi dechrau cwrs ar sut i seiclo'n ddiogel ar yr heol. Maent wedi dysgu am gyfarpar diogel a sut i wneud arwyddion i ddangos i ddefnyddwyr yr heolydd beth maent am wneud.

**Dino4hire**
Roedd bwrlwm mawr yn yr Ysgol wrth i'r cwmni 'Dino4hire' gyrraedd. Cwmni o Abertawe ydynt a mae nhw'n cynnig gweithdai deinosoriaid ar draws Prydain. Cawsom fore bendigedig yn dysgu am ddeinosoriaid, gwylio deinosor bach yn deor o'r wy a chwrdd â deinosoriaid. Uchafbwynt y bore oedd cwrdd â Ronnie y T-Recs. Yn ffodus iawn wnaeth Alfie a Ryan dianc rhag dannedd y deinosor brawychus!





**Gorsaf Dân Aberystwyth**
Aeth Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad i Orsaf Dân Aberystwyth fel rhan o waith ar Dân Mawr Awstralia. Cawsom fore diddorol iawn yn teithio o gwmpas yr Orsaf Dân a dysgu am y gwahanol swyddi sydd o gwmpas yr orsaf. Buom yn ffodus iawn i weld yr holl gamau os oes galwad frys yn dod i'r Orsaf. Wedi'r galwad cyntaf, roedd yr injan dân yn llawn ac ar yr heol ar ôl dim ond 1 munud ac 17 eiliad! Roedd yr ymweliad yn un profiad gwerth chweil i'r plant a hefyd y dysgu yn y dosbarth.

**Parêd Gŵyl Dewi**
Roedd yn braf gweld baner yr Ysgol yng nghanol gorymdaith Gŵyl Dewi. Diolch i'r plant a Miss Cory am fynd yno ar brynhawn gwlyb. Rydym yn ffodus iawn i gael dathliad Cymreig mor llwyddiannus!

**Dydd Gŵyl Dewi**
Gwisgodd y plant yn eu gwisgoedd Cymreig ar yr ail o Fawrth. Roedd amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn digwydd yn y dosbarthiadau i ddathlu diwrnod ein Nawdd Sant.

**Diwrnod y Llyfr**
Ar y noson cyn Diwrnod y Llyfr, daeth Mande o'r cwmni 'Turn the Page' i werthu llyfrau yn yr Ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau yn edrych ar yr holl lyfrau Cymraeg a Saesneg oedd ar gael a dewis llyfrau gyda'u tocynnau.
Ar Ddiwrnod y Llyfr, cafodd pawb y cyfle i wisgo fel eu hoff gymeriadau. Roedd y gwisgoedd yn anhygoel! Mae'r plant yn hoff iawn o ddarllen a mae hi'n braf cael dathlu ein hoff lyfrau.

**Noson Cawl a Thwmpath**
Byddwn yn cynnal noson Cawl a Thwmpath tn Neuadd, Pen-llwyn, Capel Bangor ar nos Wener Mawrth 20fed. Mae croeso i bawb ymuno â ni. Bydd Erwyd Howells yn arwain y dawnsio a chewch chi gyfle i flasu cawl Cathy! Cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth neu cewch chi brynu tocynnau o'r Ysgol neu Dafarn y Maes, Capel Bangor.






Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


# Tasg y Tincer


Caio

Diolch yn fawr i chi am eich lluniau o’r cogydd prysur yn lluchio’i grempog yn uchel i’r awyr! Diolch i: Noah Fox, Llanilar; Caio Mason Lewis, Tal-y-bont; Meia Elin Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn; Rhys Mills, Penrhyn-coch; Maddison, Bow Street; Ethni Mair Siôn, Rhostryfan. D’enw di, **Caio**, ddaeth o’r het y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Gobeithio eich bod i gyd wedi bod yn dathlu ar Fawrth y Cyntaf! Fuodd rhai ohonoch yn y parêd yn Aberystwyth? A beth am fod yn rhan o’r gadwyn ddynol enfawr ar y prom, wnaeth greu record byd?! Ond nid ni’r Cymry ydi’r unig rai sydd â gŵyl arbennig ym mis Mawrth. Ydech chi’n gwybod pa wlad sydd newydd ddathlu dydd gŵyl ar 17 Mawrth? Dyna chi – **Iwerddon**. Ac enw’r sant? Sant Padrig. Yn ôl y sôn, defnyddiodd Padrig feillionen (*shamrock*) i esbonio i bobl ei wlad am Dduw, ac ry’n ni’n cysylltu’r planhigyn hwnnw ag Iwerddon hyd heddiw. Mae gan y feillionen dair deilen fach; rwy’n siŵr eich bod wedi gweld y planhigyn yn tyfu yn ardal *Y Tincer*! Os ydych chi wedi gweld un â phedair deilen ... wel, fe gewch chi lwc dda! Rwy’n siŵr hefyd eich bod wedi sylwi mai gwyrdd yw lliw crysau tîm rygbi Iwerddon – lliw y feillionen. Mae rhai chwedlau’n dweud bod Padrig wedi ei eni yn ardal Port Talbot, yn ne Cymru! Edrychwch am fwy o ffeithiau amdano ar y we, neu holwch yn eich llyfrgell leol.

Y mis hwn, gan fod y tywydd yn gwella, beth am liwio llun o fyd natur ar ei orau? Ydi’r aderyn wrthi’n creu nyth, tybed? Anfonwch eich gwaith i’r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1af Ebrill.... a ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a’r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 427 | Mawrth 2020